

Gyrwyr

» Cyn Ymadael

Gwnewch y gwiriadau cerbyd arferol bob dydd cyn cychwyn, gan gofnodi eich canfyddiadau neu ddim diffygion.

Cofiwch wybod beth i'w wneud os digwydd argyfwng: gwrthdrawiad, torri i lawr neu dywydd garw.

Dysgwch sut i ddefnyddio'r diffoddwr tân, y pecyn cymorth cyntaf ac unrhyw offer arall.

Cofiwch fod â rhifau ffôn eich garej, yr ysgolion yr ewch iddynt ac, os ydych yn yrrwr tacsï, rhai rhieni eich plant a, phan fo hynny'n briodol, teithwyr cynorthwyol.

Sicrhewch eich bod yn ffit ac iach i yrru.

Sicrhewch eich bod yn gwisgo bathodyn gyrrwr bws neu yrrwr tacsï trwyddedig bob amser.

Sicrhewch fod gennych ffôn poced bob amser ac nad ydych yn ei ddefnyddio heblaw pan fyddwch wedi stopio. Nid ydych yn cael defnyddio ffôn poced neu radio, hyd yn oed un "llawrydd", wrth yrru cludiant ysgol, gyda dysgwyr neu deithwyr cynorthwyol.

» Byrddio a Gollwng Dysgwyr

Cadwch y drysau ynghau nes bydd y cerbyd wedi stopio'n llwyr.

Peidiwch â gadael i ddysgwyr agor a chau'r drysau.

Rhaid i ddysgwyr sy'n byrddio a disgyn o gerbyd gyda drysau llaw fod dan oruchwyliaeth oedolyn neu'r gyrrwr. Ar ôl stopio'r cerbyd, gosodwch y brêc llaw, diffoddwch y peiriant a thynnu'r allwedd. Gadewch y cerbyd mewn gêr cyn gadael y caban i agor a chau'r drws.

Sicrhewch fod holl deithwyr, eu dillad a'u heiddo'n glir o'r drysau cyn symud ymlaen. Defnyddiwch eich drychau.

Arhoswch i'r holl ddysgwyr eistedd a gwregysu cyn gyrru oddi yno.

Cofiwch atgoffa dysgwyr i wisgo'u gwregysau diogelwch, pan fydd rhai ar y cerbyd.

Byddwch yn ymwybodol o ddysgwyr gydag anableddau a chaniatáu amser ychwanegol iddynt fyrddio, eistedd a disgyn.

Disgynwch yn y manau sydd wedi eu cytuno neu cydnabod yn unig. Yn y bore, peidiwch â chael eich temptio i ollwng dysgwyr yn ymyl neu du allan i'r ysgol (e.e. ger siop leol) fel eu bod yn gorfod cwblhau eu siwrne a'r droed. Ewch i mewn i'r campws pob tro.

Parciwch bob amser fel bod dysgwyr yn disgyn i'r palmant, nid i'r lôn gerbydau.

Os na allwch fynd i mewn i gampws yr ysgol i godi neu ollwng teithwyr, parciwch ar yr un ochr o'r ffordd â mynedfa'r ysgol lle bo modd. Hysbyswch unrhyw beth sydd o bryder.

Peidiwch fyth â gwrthod cludo plant. Os ydych yn meddwl am ryw reswm na ddylent fod yn y cerbyd – e.e. ni allant dalu am eu tocyn neu nid oes ganddynt gerdyn teithio – hysbyswch eich rheolwr a dilyn y cyfarwyddiadau. Gwiriwch gardiau bws bob dydd i sicrhau mai dim ond dysgwyr â hawl sydd ar y bws. Fe all cludo dysgwyr sy'n mynd adref gyda chyfeillion orlwytho bws dros dro.

Peidiwch fyth â gadael i oedolion diawdurdod deithio yn y cerbyd.

Cofiwch ddiffodd peiriannau pan fyddwch yn aros ar dir yr ysgol.

Rhaid gwirio y bws ar ôl y gollwng olaf a bod yn ymwibodol bod dysgwyr weithiau yn methu eu arhosiad. Peidiwch a gadael unrhyw plentyn sydd wedi aros ar y trafndiaeth i ffwrdd o'r cerbyd. Rhaid troi o gwmpas i cludo'r dysgwyr yn ol i'r arosfan arferol. Peidiwch a gyrru i ffwrdd or llwybr arferol nac yn ol i'r modurdy, efallai fydd hwn yn creu trallod.

Ddyllai dysgwyr gynradd cael ei ddisgyn yn y safleoedd cywir neu yn eu gartref ar ochr priodol or ffordd a lle mae oedolyn yn bresennol. Os oes dim rhaid galw eich rheolwr/goruchwyliwr. Rhaid byth gadael dysgwr gynradd heb gwmni oedolyn.

» Ar y Ffordd

Cadwch at Reolau'r Ffordd Fawr.

Byddwch yn brydlon. Gadewch mewn digon o amser, yn enwedig ar dywydd garw.

Yn y prynhawn cyrhaeddwch yr ysgol ddeng munud cyn i gloch yr ysgol ganu, fel y gallwch symud eich cerbyd yn ddiogel.

Peidiwch â pharcio ar unrhyw linellau melyn igam-ogam, nac yn unrhyw fan arall lle caiff parcio ei wahardd. Peidiwch fyth â pharcio lle byddai gwneud hynny'n peryglu defnyddwyr eraill y ffyrdd, gan gynnwys cerddwyr.

Peidiwch fyth â gadael yr ysgol yn y prynhawn cyn amser penodedig y contract, neu yn ôl cyfarwyddyd aelod o'r staff ar ddyletswydd.

Pan fyddwch ar dir yr ysgol, cadwch at unrhyw drefnau unffordd a pheidiwch fyth â gyrru mwy na deng milltir yr awr.

Gyrrwch bob amser mewn ffordd ddiogel gydag ystyriaeth briodol o'ch teithwyr, defnyddwyr eraill y ffyrdd, a chyflwr y ffyrdd ar y pryd. Cadwch at y cyfyngiadau cyflymder.

Dilynwch y llwybr a drefnwyd, gan ddefnyddio'r manau codi a gollwng cydnabyddedig yn unig. Os ydych yn ansicr o fannau aros neu'n teimlo eu bod yn anniogel, siaradwch â'ch rheolwr, fydd yn cysylltu â Chludiant Teithwyr.

O ran bysiau a choetsis, dangoswch yr arwyddion rhybuddio 'Bws Ysgol', a sicrhau eu bod yn y manau priodol yn unig wrth gludo dysgwyr ysgol. Rhaid peidio â'u defnyddio ar unrhyw adeg arall.

Os oes goleuadau'n fflachio ar y cerbyd, defnyddiwch nhw'n unig pan fydd y bws yn aros i godi neu ollwng teithwyr. Cewch ddefnyddio fflachwyr perygl hefyd pan fo'r cerbyd yn rhwystro traffig.

Defnyddiwch larwm neu rybudd clywedol wrth facio. Ar y briffordd, ni ddylid bacio heblaw ar ôl codi, a chyn gollwng, dysgwyr.

Peidiwch fyth â gadael i deithwyr deithio ar lwyfannau bysiau a choetsis. Peidiwch â siarad â'r teithwyr.

Wrth gyfarfod cerbyd ar gyfer teithio ymlaen, cyrhaeddwch y man cyfarfod yn y bore a'r prynhawn bum munud cyn y bws arall. Sicrhewch fod dysgwyr yn aros ar y cerbyd porthi nes bydd y cerbyd arall yn cyrraedd. Sicrhewch eich bod yn asesu perygl y lleoliad.

» Materion Eraill

Dylid hysbysu achosion o gamymddygiad dysgwr i'r Pennaeth a'ch rheolwr. Os byddwch yn bygwth hysbysu dysgwyr yn camymddwyn, gwnewch hynny bob tro.

Peidiwch fyth â throi dysgwyr oddi ar fws neu dacs.

Peidiwch ag ysmegu, bwyta nac yfed wrth yrru neu wrth aros am ddysgwyr.

Ar ddiwedd pob taith, gwylwch am unrhyw eiddo coll ar y cerbyd.

Cydymffurfiwch ag unrhyw gais rhesymol gan y Pennaeth, staff ysgol a Chludiant Teithwyr.

» Amddiffyn Plant

Dylai gyrwyr fod yn ymwybodol o'r wybodaeth benodol am amddiffyn plant sy'n cael ei chyhoeddi gan y Cyngor Sir. Mae hyn yn cynnwys beth i'w wneud os byddwch yn amau bod dysgwyr yn cael eu cam-drin a sut i adnabod arwyddion corfforol neu emosiynol o gam-drin.

» Gyrwyr a Chyfryngau Cymdeithasol

Gwaetha'r modd, mae adroddiadau o ddigwyddiadau diweddar o yrwyr cludiant ysgol yn defnyddio *Facebook* yn amhriodol i gysylltu â phlant sy'n teithio ar eu contract cludiant ysgol.

Mae'n amhriodol defnyddio *Facebook* i gadw cysylltiad â dysgwyr ar eich contractau a, hyd yn oed pan fo'n ddiniwed, gall arwain at honiadau andwyol. Er mwyn amddiffyn pawb, gan gynnwys gyrwyr:

1. Peidiwch â gwahodd dysgwyr i fod yn "gyfaill" *Facebook*.
2. Cofiwch bob amser "wrthod" cais gan ddysgwr *Facebook*. Peidiwch â "derbyn".
3. Os ydych eisoed wedi derbyn un neu fwy fel cyfeillion *Facebook*, rhaid i chi eu "dileu" o'ch rhestr Cyfeillion. Mae hyn yn fwy diogel nag dim ond eu "rhwystro".

Nid yw hyn yn berthnasol i berthnasau neu gyfeillion teuluol gwirioneddol.

Diwygiedig 8/2/19